## P-04-401 Y Gymraeg yn ein Cynulliad ni

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar i Gomisiwn y Cynulliad dderbyn argymhelliad pwyllgor craffu'r Bil Ieithoedd Swyddogol dros sicrhad ar wyneb y Bil y cyhoeddir Cofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y Cynulliad. Mae eu hargymhellion yn adlewyrchu dymuniad pobl Cymru i weld triniaeth cyfartal i'r Gymraeg ac i atal camwahaniaethu yn erbyn y Gymraeg a'i defnydd.

**Cyflwynwyd y ddeiseb gan:** Ceri Phillips

**Ystyriwyd y ddeiseb am y tro cyntaf:** 19 Mehefin 2012

**Nifer y llofnodion:** 748